



## Cartref Gofal Albert Edward Prince of Wales Court

Yn RMBI Care Co, gofalwn am Seiri Rhyddion hŷn, eu teuluoedd a phobl yn y gymuned ehangach. Mae gennym nifer brin o lefydd a allai fod ar gael i bobl nad oes ganddynt gysylltiad gyda'r Seiri Rhyddion. Mae'r ceisiadau hyn yn cael eu hadolygu fesul achos gan y Rheolwr Cartref perthnasol, sy'n rhoi gwybod a oes lle ar gael ac yn egluro'r broses o wneud cais. Rhoddir blaenoriaeth bob amser i Seiri Rhyddion a'u teuluoedd.

Mae Cartref Albert Edward Prince of Wales Court yn darparu gofal a chymorth i bobl sydd, yn dilyn asesiad, angen gofal preswyl (llai a mwy dibynnol), nyrsio neu ddementia arnynt.

### Strwythur ffioedd

Mae ein ffioedd gofal ar gyfer preswylwyr sy'n talu amdanynt eu hunain, neu lle mae'r awdurdod lleol yn talu, yn seiliedig ar asesu anghenion cyn derbyn, ac mae hyn yn ofynnol cyn derbyn fel bo'r Cartref yn gallu deall yn iawn lefel y gofal a'r cymorth sydd ei angen. Mae'r prisiau'n rhai wythnosol ac i roi syniad yn unig. Bydd y ffioedd yn cael eu cadarnhau'n dilyn asesiad llawn.

- Gofal preswyl o £934 yr wythnos
- Gofal nyrsio o £1,395 yr wythnos
- Gofal dementia o £1,456 yr wythnos

Gallwn gynnig gofal seibiant os oes lle ar gael. Mae'r prisiau'n dechrau o £1,028 yr wythnos ar sail asesiad o anghenion gofal y person. *(Cofiwch fod y ffioedd i gyd yn cael eu hadolygu ar 1 Ebrill bob blwyddyn)*

Mae'r ystafelloedd i gyd yn rhai sengl ond gall rhai fod yn ddrytach oherwydd eu maint a / neu gyfleusterau.

*Gall y Cartref ddarparu cyfleusterau ar y cyd i gyplau lle bo angen ond bydd hyn yn seiliedig ar gwrdd ag anghenion gofal y ddau unigolyn gyda ffioedd yn cael eu codi fesul person.*

Yr oed y gall pobl ddod i un o gartrefi gofal RMBI Care Co. yw 55+ ond gall pobl iau na hyn hefyd wneud cais a bydd eu cais yn cael ei ystyried gan ein hymddiriedolwyr.

Darparwn ofal i breswylwyr sy'n talu amdanynt eu hunain a lle mae'r awdurdod lleol yn talu. Bydd pob preswlydd sy'n dod i'n Cartref yn derbyn asesiad ariannol i gadarnhau eu hamgylchiadau unigol a sut y bydd eu ffioedd gofal yn cael eu talu. Mae angen i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais RMBI Care Co.

Os yw preswlydd yn cyrraedd pwynt lle na fedrant mwyach dalu am eu gofal, bydd RMBI Care Co. yn parhau i gynnal eu ffioedd cyn belled ag y gallwn barhau i gwrdd ag anghenion yr unigolyn a gall yr awdurdod lleol dalu amdanynt.

## Mae gofalu'n ffordd o fyw i ni

● Kind ● Supportive ● Trusted



Mae RMBI Care Co. yn cynnig cynllun gohirio talu os oes angen ystyried eiddo fel rhan o ffioedd gofal person. Gallwn roi manylion y cynllun hwn os gofynnir.

Am fwy o gyngor am ffioedd gofal, mae nifer o adnoddau defnyddiol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf gan gynnwys [www.ageuk.org.uk](http://www.ageuk.org.uk) neu [www.payingforcare.org](http://www.payingforcare.org)

### **Mae'r pethau canlynol wedi eu cynnwys yn y ffioedd gofal wythnosol:**

- gofal a chymorth yn unol â'r asesiad ac adolygiad rheolaidd o'r cynllun gofal
- llety
- yr holl brydiau bwyd, byrbrydau a diodydd wedi eu paratoi'n ffres gan dîm arlwy'o'r Cartref
- te, coffi a chacennau ar gael yn ystod y dydd
- rhaglen weithgareddau lawn ac amrywiol (*\*gall fod tâl ychwanegol am rai gweithgareddau*)
- yr holl gyfleustodau (*golau a gwres a chostau llety eraill*)
- gwasanaethau cadw tŷ a golchi dillad (*nid yw hyn yn cynnwys y gost o sychlanhau*)
- mynediad wi-fi i'r we mewn ardaloedd cymunedol
- trwydded deledu (gallai fod angen trwydded gonsesiynol os ydych o dan 75 oed)
- yswiriant hyd at uchafswm o £2,500, hyd at £1,000 yr eitem. Mae arian personol wedi'i yswirio hyd at £100. Nid yw hyn yn cynnwys cardiau banc, credyd a debyd. Bydd angen i breswylwyr wneud eu trefniadau eu hunain os oes angen mwy o yswiriant.

*Cofiwch nad yw'r ffioedd wythnosol yn cynnwys trin gwallt, trin traed, therapïau preifat fel ffisiotherapi, eitemau ymolchi etc, eitemau a brynir o'r bar (lle bo'n berthnasol), papurau newydd na chylchgronau, meddyginiaethau dros y cownter a rhai nad yw meddyg teulu'n eu rhagnodi, tacsis i fynychu apwyntiadau meddygol preifat neu allanol, teledu lloeren neu gebl at ddefnydd personol, contractau sy'n cael eu llunio wrth ddod i'r Cartref, e.e. ffôn preifat neu eitemau dillad personol.*

*Nid yw bob amser yn bosib i aelod o staff fynd gyda phreswylwyr i apwyntiadau meddygol preifat neu allanol. Cofiwch ofyn i Reolwr y Cartref oherwydd gallai fod cost ychwanegol am hyn.*

### **Cyn Derbyn**

Rhaid llofnodi Cytundeb Gwasanaethau Gofal (CSA) a'i wrth-lofnodi gan dyst a bydd angen i breswylwyr sy'n talu eu ffioedd eu hunain lenwi mandad Debyd Uniongyrchol. Rhaid talu'r ffioedd gofal fis ymlaen llaw drwy Ddebyd Uniongyrchol gydag amserlen gasglu'r Debyd Uniongyrchol yn cael ei chyflwyno yn y cam derbyn. Lle mae'r Awdurdod Lleol yn cyfrannu at y ffioedd, bydd angen i'r preswilydd drefnu i dalu eu cyfraniadau asesiedig drwy archeb sefydlog.

Os nad oes gan y preswilydd alluoedd i lofnodi'r CASE, bydd angen i'r Pŵer Atwrnai (POA) lofnodi ar ran y preswilydd. Bydd angen i ni gael copi o'r POA neu ni fyddwn yn gallu derbyn y CSA wedi'i lofnodi gan y POA. Os nad oes POA ac nid oes gan yr ymgeisydd alluoedd i lofnodi'r CSA, bydd angen i Warrantwr lofnodi'r CSA. Bydd unrhyw un sy'n gweithredu fel Gwarantwr yn gwbl gyfrifol am dalu'r ffioedd gofal felly mae'n bwysig bod y Gwarantwr yn deall eu cyfrifoldeb. Os oes ganddynt unrhyw amheuaeth, dylid gofyn am gyngor annibynnol.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cofiwch gysylltu gyda Rheolwr y Cartref neu'r Rheolwr Cysylltiadau Busnes.

### **Mae gofalu'n ffordd o fyw i ni**

● Kind ● Supportive ● Trusted